Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Options Kinsale School

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/11/2016**

## Cyd-destun

Mae Kinsale School yn cynnig pecyn addysg a gofal preswyl integredig i ddisgyblion rhwng 8 a 19 oed sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anghenion cymhleth. Ar hyn o bryd, mae’r ysgol yn addysgu 16 o ddisgyblion o Flwyddyn 6 i’r cyfnod ôl-16. Daw disgyblion o awdurdodau yn Lloegr yn bennaf a chaiff ychydig ddisgyblion eu gosod gan awdurdodau yng Nghymru. Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal, ac mae statws plentyn sy’n derbyn gofal gan bron pob un o’r disgyblion. Mae lleoliadau preswyl gan bron pob un o’r disgyblion presennol.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, bu nifer o newidiadau yn y tîm arwain. Fe wnaeth uwch athro yn yr ysgol ymgymryd â rôl pennaeth dros dro yng Ngorffennaf 2016.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae gan y pennaeth dros dro brofiad perthnasol sylweddol a dealltwriaeth glir o’r hyn y mae angen ei wneud i wella’r ysgol.

Mae’r pennaeth gwasanaeth yn rhoi cymorth gwerthfawr i’r pennaeth dros dro.

Mae amrywiaeth eang o adnoddau priodol o ansawdd da.

Mae’r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau dysgu ac ymddygiad yn unol â’u hanghenion a’u gallu.

Mae staff addysg, gofal a chlinigol yn cydweithio’n dda i gefnogi anghenion disgyblion unigol.

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol ar gyfer monitro a dadansoddi’r math o ddigwyddiadau ac ymyrraeth gorfforol, a’u hamlder.

### Meysydd i’w datblygu

Nid oes gan yr ysgol bennaeth parhaol ar hyn o bryd.

Er bod y pennaeth dros dro a’r pennaeth gwasanaeth wedi llunio ffurflen wybodaeth a hunanarfarnu fanwl ar gyfer yr ysgol yn ddiweddar, ynghyd â chynllun datblygu’r ysgol, nid yw prosesau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio datblygiad wedi’u gwreiddio’n llawn.

Megis dechrau y mae prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd y dysgu a’r addysgu. Er bod yr ysgol wedi cyflwyno rhaglen o arsylwadau gwersi, nid yw’r rhain yn canolbwyntio’n ddigon da ar ddysgu.

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| A1 | Penodi pennaeth parhaol |
| A2 | Datblygu prosesau hunanarfarnu a chynllunio ymhellach i sicrhau gwelliant parhaus ar lefel strategol |

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 3:  Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r holl faterion cydymffurfio a amlygwyd yn yr ymweliad diwethaf.  Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

**Argymhelliad 4:  Diwygio'r polisi ar amddiffyn plant i sicrhau bod y cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer staff sy'n gweithio yn yr ysgol yn glir; sicrhau bod y polisi yn cynnwys y camau y dylai'r ysgol eu cymryd pe bai honiad yn erbyn person dynodedig neu uwch aelod staff**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r polisi diwygiedig ar amddiffyn plant yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau staff sy'n gweithio yn yr ysgol yn glir, a'r gweithdrefnau y dylent eu dilyn pe bai datgeliad neu honiad.  Mae hyn yn cynnwys y camau y dylai staff yr ysgol eu cymryd pe bai honiad yn erbyn y person dynodedig neu'r pennaeth.

**Argymhelliad 5:  Gwella asesu gwaelodlin a systemau i fonitro perfformiad disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno gweithdrefnau a systemau priodol ar gyfer asesu disgyblion a monitro eu cynnydd.  Mae staff addysg, gofal a chlinigol yn cyfrannu'n briodol at asesiadau gwaelodlin ffurfiol yn ymwneud â dysgu ac ymddygiad disgyblion.  Mae targedau mewn cynlluniau addysg unigol wedi'u paru'n dda ag anghenion disgyblion.

Mae athrawon, gyda chefnogaeth eu cydweithwyr yn y timau gofal a chlinigol, yn monitro cynnydd parhaus disgyblion yn erbyn eu targedau unigol yn effeithiol. Defnyddiant amrywiaeth gynhwysfawr o ddata i osod targedau newydd.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Options Kinsale School |
| **Rhif yr ysgol** | 6646004 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 20/09/2016 |
| **Perchennog** | Options |
| **Staff** | 1 pennaeth dros dro, 4 athro, 4 tiwtor, 4 cynorthwyydd addysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 17 |
| **Darpariaeth** | Preswyl a Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Awtistiaeth ac Anghenion Cymhleth |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/03/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/06/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/03/2016 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Sw Roberts | Arolygydd Tîm |